



Polisi Absenoldeb – Cyfnod Tadolaeth

Staff Addysgu Mewn Ysgolion

Dyddiad Creu: Mehefin 2008

Dyddiad Adolygu: Medi 2015

Cytunwyd gan y Panel Athrawon:

Swyddog Cyfrifol: Ellen Williams
/Bethan Davies

Rhif Ffôn: 01443 444538 /
01443 444537



CONTENTS

1. Amcan
2. Cyflwyniad
3. Prif Ddarpariaethau Absenoldeb Tadolaeth
4. Pwy sy'n gymwys ar gyfer Absenoldeb Tadolaeth
5. Hysbysu am Absenoldeb Tadolaeth
6. Gwneud Cais am Absenoldeb Cymorth Tadolaeth
7. Tâl Tadolaeth Statudol
8. Amddiffyn rhag Anfantais neu Ddiswyddo
9. Absenoldeb Tadolaeth: Mabwysiadu
 - 9.1 Pwy sy'n Gymwys
 - 9.2 Cymryd Absenoldeb
 - 9.3 Hysbysu
 - 9.4 Gwneud Cais am Absenoldeb Tadolaeth ar gyfer Mabwysiadu
10. Ffurflen gais

ABSENOLDEB TADOLAETH

1. AMCAN

Mae Cyngor Rhondda Cynon yn ymroddedig i gynorthwyo rhieni sy'n gweithio. Mae polisi Cynllun Absenoldeb Tadolaeth y Cyngor yn darparu canllawiau ar y ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu Absenoldeb a Thâl Tadolaeth.

(Dyma'r Polisi a Gweithdrefn y mae'r Cyngor yn argymhell y dylai Cyrff Llywodraethu ei fabwysiadu. Mae'n seiliedig ar Bolisiau/Gweithdrefnau'r Cyngor ac wedi'i addasu, fel sy'n briodol, ar gyfer ysgolion.)

Mae'r Corff Llywodraethu yn cydnabod y cyfrifoldebau ychwanegol a ddaw gyda babi newydd. Er mwyn cynorthwyo ar yr adeg hon, mae'r Corff Llywodraethu yn darparu ar gyfer hawl i Absenoldeb Tadolaeth, a ddarperir ar gyfer tad y plentyn neu bartner neu gynhaliwr enwebedig mam feichiog adeg neu oddeutu adeg y geni.

2. CYFLWYNIAD

Daeth y rheoliadau statudol newydd ar gyfer Absenoldeb a Thâl Tadolaeth sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cyflogaeth 2002 i rym o 6 Ebrill 2003. Cyflwynodd y Ddeddf Cyflogaeth hawl newydd i weithwyr cymwys gymryd pythefnos o Absenoldeb a Thâl Tadolaeth Statudol yn dilyn geni plentyn.

3. PRIF DDARPARIAETHAU ABSENOLDEB TADOLAETH

Mae'r darpariaethau statudol yn berthnasol i weithwyr cyflogedig y cafodd eu plant eu geni ar neu wedi 6 Ebrill 2003. Gall gweithwyr cyflogedig cymwys ddewis cymryd wythnos neu ddwy wythnos yn olynol o Absenoldeb Tadolaeth (D.S. Ni ellir cymryd diwrnod nawr ac yn y man).

Gall gweithwyr cyflogedig cymwys ddewis dechrau eu habsenoldeb:

ddyddiad geni'r plentyn (boed hyn yn gynharach neu'n hwyrach na'r disgwyl) neu

unrhyw ddiwrnod yn wythnos geni'r plentyn neu'r wythnos wedyn ond rhaid ei gwblhau: -

Cyn pen 56 diwrnod o ddyddiad gwirioneddol geni'r plentyn, neu

Os yw'r plentyn yn cael ei eni'n gynnar, o fewn y cyfnod o ddyddiad gwirioneddol geni'r plentyn hyd at 56 diwrnod ar ôl wythnos ddisgwyliedig y geni.

Dim ond un cyfnod o absenoldeb fydd ar gael i weithwyr cyflogedig waeth a oes mwy nag un plentyn yn cael ei eni o ganlyniad i'r un beichiogwydd.

4. PWY SY'N GYMWYS AR GYFER ABSENOLDEB TADOLAETH

Bydd angen i weithwyr cyflogedig fodloni'r amodau canlynol er mwyn bod yn gymwys ar gyfer absenoldeb tadolaeth. Dyma nhw:

Bod neu ddisgwyl bod yn gyfrifol am fagu'r plentyn

Bod yn dad biolegol i'r plentyn neu'n ŵr neu'n bartner i'r fam

Wedi gweithio'n barhaus i'r cyngor am 26 wythnos hyd at y bymthegfed wythnos cyn dyddiad geni disgwylidig y babi.

5. HYSBYSU AM ABSENOLDEB TADOLAETH

Bydd angen i weithwyr cyflogedig roi 28 diwrnod o rybudd i'w Pennaeth o'u bwriad i gymryd Absenoldeb Tadolaeth. Bydd angen iddynt gadarnhau:

Yr wythnos y disgwylir y babi

A ydynt am gymryd absenoldeb o wythnos neu bythefnos

Pryd maent am i'r absenoldeb ddechrau.

6. GWNEUD CAIS AM ABSENOLDEB TADOLAETH

Bydd angen i'r gweithiwr cyflogedig gwblhau ffurflen gais o'r enw 'Cais am Absenoldeb Tadolaeth' fel tystiolaeth o'i hawl am Dâl Tadolaeth Statudol. Mae'r ffurflen yn cynnwys datganiad bod y gweithiwr cyflogedig yn bodloni'r amodau perthnasol.

7. TÂL TADOLAETH STATUDOL

Telir Tâl Tadolaeth Statudol ar yr un gyfradd â'r gyfradd safonol ar gyfer Tâl Mamolaeth Statudol.

D.S. Gall y Corff Llywodraethu benderfynu talu cyflog llawn yn ystod yr wythnos gyntaf a fyddai'n cael ei ystyried yn Absenoldeb Cymorth Mamolaeth. Telir Tâl Tadolaeth Statudol yn ystod yr ail wythnos.

8. AMDDIFFYN RHAG ANFANTAIS A DISWYDDO

Bydd gweithwyr cyflogedig yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu trin neu'u diswyddo yn annheg am gymryd neu geisio cymryd Absenoldeb Tadolaeth. Gall gweithwyr cyflogedig sydd o'r farn eu bod yn cael eu trin yn annheg gwyno i dribiwnlys cyflogaeth.

9. ABSENOLDEB TADOLAETH: MABWYSIADU

Mae Absenoldeb Tadolaeth ar gael i fabwysiadwyr sydd wedi cael eu hysbysu eu bod wedi'u paru â phlentyn ar neu wedi 6 Ebrill 2003, neu wedi cael plentyn i'w fabwysiadu wedi'r dyddiad hwnnw. Gall y gweithiwr cyflogedig gymryd naill ai wythnos o absenoldeb neu ddwy wythnos yn olynol.

Rhaid ei gymryd cyn pen 56 diwrnod ar ôl i'r plentyn gael ei leoli.

9.1 PWY SY'N GYMWYS

Mae'r absenoldeb ar gael at ddibenion gofalu am y plentyn neu gynorthwyo mabwysiadwr y plentyn. Er mwyn bod yn gymwys rhaid i'r gweithiwr cyflogedig:

Bod wedi cwblhau 26 wythnos o wasanaeth parhaus erbyn diwedd yr wythnos hysbysu (yr wythnos y mae'r mabwysiadwr yn cael gwybod ei fod wedi'i baru â phlentyn)

Bod yn briod neu'n bartner i'r mabwysiadwr; a

Disgwyl bod yn gyfrifol am fagu'r plentyn

Dim ond un cyfnod o absenoldeb y gall gweithwyr cyflogedig ei gael waeth faint o blant sy'n cael eu mabwysiadu.

9.2 CYMRYD ABSENOLDEB

Gall y gweithiwr cyflogedig ddewis dechrau absenoldeb ar:

Y dyddiad y mae'r plentyn yn cael ei leoli gyda'r sawl sy'n mabwysiadu

Nifer arbennig o ddiwrnodau ar ôl i'r plentyn gael ei leoli; neu

Ar ddyddiad a bennwyd ymlaen llaw sydd wedi'r dyddiad y disgwylir i'r plentyn gael ei leoli.

9.3 HYSBYSU

Bydd angen i weithwyr cyflogedig ddweud wrth eu rheolwyr llinell am eu bwriad i gymryd absenoldeb tadolaeth cyn pen saith niwrnod ar ôl cael gwybod gan eu hasiantaeth fabwysiadu eu bod wedi'u paru â phlentyn, oni bai nad yw hyn yn rhesymol ymarferol.

Bydd angen iddynt ddweud wrth eu Pennaeth: -

Pryd y mae disgwyl i'r plentyn gael ei leoli

A ydynt am gymryd wythnos neu bythefnos o absenoldeb

Pryd maent am i'r absenoldeb ddechrau

Bydd gweithwyr cyflogedig yn gallu newid eu meddwl ynglŷn â'r dyddiad y maent am i'w habsenoldeb ddechrau ar yr amod eu bod yn dweud wrth eu cyflogwr 28 diwrnod ymlaen llaw (oni bai nad yw hynny'n rhesymol ymarferol). Bydd rhaid i weithwyr cyflogedig ddweud wrth eu Pennaeth ar ba ddyddiad y maent yn disgwyl i unrhyw daliadau Tâl Tadolaeth Statudol ddechrau o leiaf 28 diwrnod ymlaen llaw, oni bai nad yw hyn yn rhesymol ymarferol.

9.4 CAIS AM ABSENOLDEB TADOLAETH AR GYFER MABWYSIADU

Bydd angen i'r gweithiwr cyflogedig gwblhau ffurflen gais o'r enw 'Cais am Absenoldeb a Thâl Tadolaeth', sydd ynghlwm, fel tystiolaeth o'i hawl i Dâl Tadolaeth Statudol. Mae'r ffurflen gais yn cynnwys datganiad fod y gweithiwr cyflogedig yn bodloni'r amodau perthnasol.

CAIS AM ABSENOLDEB A THÂL TADOLAETH

Y dyddiadau ar gyfer tâl ac absenoldeb:

Disgwylir y babi ar _____

Os yw'r babi wedi'i eni, rhowch y dyddiad geni _____

Hoffwn i'm *1/2 - wythnos o Dâl Tadolaeth Statudol gychwyn ar _____

***dilëwch os nad yw'n berthnasol**

Eich Datganiad:

Cyfenw _____

Enw(au) Cyntaf _____

Ysgol _____

Rhif Cyflogres _____

Rwyf yn datgan:

Mai fi yw tad y plentyn/partner/cynhaliwr enwebedig y fam feichiog. (Diffinnir cynhaliwr enwebedig fel y sawl a enwebwyd gan y fam i gynorthwyo i ofalu am y plentyn a darparu cymorth i'r fam adeg neu oddeutu adeg y geni).

Rwyf yn cytuno y byddaf yn hysbysu fy Mhennaeth yn ysgrifenedig am ddyddiad geni'r plentyn.

Llofnod _____ **Dyddiad** _____

Os ydych am wneud cais am Absenoldeb Tadolaeth, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r datganiadau canlynol er mwyn bod yn gymwys i gael Tâl ac Absenoldeb Tadolaeth Statudol.

Rwyf yn datgan:

- Mai fi yw tad biolegol y babi, fy mod yn briod â'r fam, fy mod yn byw gyda'r fam mewn perthynas deuluol barhaus ond nad wyf yn berthynas agos
- Bod gennyf gyfrifoldeb am fagwraeth y plentyn
- Y byddaf yn cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith i gynorthwyo'r fam neu i ofalu am y plentyn
- Fy mod wedi gweithio'n barhaus i'r cyngor am 26 wythnos hyd at y bymthegfed wythnos cyn dyddiad geni disgwylid y babi. Neu, ar gyfer mabwysiadwyr, fy mod wedi cwblhau 26 wythnos o wasanaeth parhaus erbyn diwedd yr wythnos hysbysu (yr wythnos y mae'r mabwysiadwr wedi cael gwybod ei fod wedi'i baru â phlentyn)

Llofnod _____ **Dyddiad** _____

CYDNABUWYD GAN

Llofnod y Pennaeth _____ **Dyddiad** _____

- Er mwyn derbyn Tâl Tadolaeth Statudol gallwch gymryd 1 neu 2 wythnos gyfan o absenoldeb unrhyw bryd hyd at 8 wythnos wedi dyddiad geni'r babi
- Os yw'r babi'n cael ei eni'n gynnar gallwch ddewis cymryd absenoldeb unrhyw bryd rhwng y dyddiad geni gwirioneddol a diwedd cyfnod 8 wythnos o ddydd Sul yr wythnos y disgwyliid y babi yn wreiddiol
- Ni allwch chi gymryd diwrnod yn awr ac yn y man, ond gall yr wythnosau ddechrau ar unrhyw

ddiwrnod, e.e. o ddydd Mawrth i ddydd Llun.